Polisi Gofal Defnyddiwr
'Gwasanaeth o Ofal'

Cytundeb Cartref ac Ysgol

Dylai'r Ysgol:
Gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl i dderbyn Cwricwlwm llawn ac eang
Annog pob disgybl i roi o'i orau/gorau
Annog pob disgybl i barchu eu cyfoedion ac oedolion sydd yn gweithio ac yn cynorthwyo yn yr ysgol
Annog disgyblion i barchu eiddo eraill a'u hamgylchfyd
Hysbysu rhieni o gynnydd eu plentyn yn gyson yn ystod y flwyddyn ysgol
Hysbysu rhieni am faterion canmoliaethus neu sydd o gonsyrn, yn berthnasol i waith neu ymddygiad eu plentyn
Sicrhau fod rhieni yn cael eu hysbysu am weithgareddau'r ysgol trwy gysylltiadau cyson

Dylai'r Rhiant:
Sicrhau fod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon
Sicrhau fod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn gyson ac yn egluro unrhyw absenoldeb trwy lythyr
Gefnogi disgwyliadau'r ysgol cyn belled ag y bo ymddygiad derbyniol yn berthnasol o fewn awyrgylch yr ysgol
Hysbysu'r ysgol os oes ganddynt unrhyw gonsyrn neu broblem a allai fod yn effeithio ar waith neu ymddygiad eu plentyn
Gefnogi Polisi Gwisg Ysgol yr ysgol trwy sicrhau fod y wisg ysgol a'r wisg Addysg Gorfforol yn gywir
Fynychu Nosweithiau Rhieni er mwyn trafod cynnydd eu plentyn
Gefnogi eu plentyn wrth iddynt gwblhau tasgau adref

Dylai'r Plentyn:
Ymlynu at Gôd Ymddygiad yr ysgol
Bod yn gwrtais ac ystyriol gyda'u cyfoedion ac oedolion eraill
Cynnal enw da'r ysgol trwy weithredoedd ac ymddygiad
Bod yn brydlon a chyson o ran presenoldeb
Fod wedi gwisgo yn gywir yn ei wisg/gwisg ysgol
Sicrhau fod y tasgau sydd i'w gwneud gartref wedi eu cwblhau a'u dychwelyd ar amser
Gweithio hyd eithaf ei allu /gallu

Arwyddwyd gan y Pennaeth ……

Arwyddwyd gan y rhiant/gwarcheidwad ……

Arwyddwyd gan y Disgybl ……